Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Whitland Dental Co

Dyddiad yr arolygiad: 18 Mawrth 2025
Dyddiad cyhoeddi: 18 Mehefin 2025





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn:0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-83715-873-7


© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ....................................................5

2. Crynodeb o'r arolygiad ....................................................6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ....................................................8

- Ansawdd Profiad y Claf ....................................................8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .................................... 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .................................... 16

4. Y camau nesaf .................................................... 19

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .............. 20

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith .................................... 21

Atodiad C - Cynllun gwella .................................... 22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Whitland Dental Co ar 18 Mawrth 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 17 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 4 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Cawsom adborth cadarnhaol gan gleifion am eu taith gofal yn Whitland Dental Co. Gwelsom staff proffesiynol yn trin y cleifion ag urddas a pharch. Roedd trefniadau cefnogol ar waith i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng y cleifion a'r staff a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael gwybodaeth foddhaol am gostau, risgiau a manteision triniaethau. Fodd bynnag, dywedodd rhai cleifion wrthym na fyddent yn gwybod sut i gael gofal brys y tu allan i oriau.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod yn ei chael hi'n hawdd cael apwyntiad pan fo angen un arnynt, ac roedd yr holl sylwadau ysgrifenedig a gafwyd gan gleifion yn gadarnhaol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion ynglŷn â gofal deintyddol y tu allan i oriau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd addasiadau rhesymol yn cael eu cynnig i gleifion a staff ag anableddau
- Roedd y systemau rheoli apwyntiadau a brysbennu apwyntiadau brys.
- Roedd yr holl adborth gan gleifion yn gadarnhaol.

## Darparu  Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Nodwyd bod gwaith adnewyddu yn mynd rhagddo yn y practis, ond roedd yn dal i gael ei gynnal a'i gadw i safon dda er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd pob ardal o'r practis yn lân ac yn drefnus, ac roedd trefniadau boddhaol ar waith i ddihalogi cyfarpar amldro yn ddiogel.

Roedd y deintyddfeydd a'r ardaloedd aros o faint priodol i ddiwallu anghenion y staff a'r cleifion. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael fel mater o drefn ac yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd wrth drin cleifion. Roedd gofal cleifion yn cael ei ddarparu mewn modd diogel ac effeithiol, ond gwnaethom nodi maes i'w wella mewn perthynas â rhestrau gwirio ar gyfer tynnu dannedd.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi mesurau diogelu cadarn waith i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n addas a'i lanhau yn unol â'r gweithdrefnau priodol.
- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon dda
- Roedd y gweithdrefnau diogelu yn gynhwysfawr ac yn gyfredol
- Roedd triniaethau radiograffig yn cael eu cynnal yn ddiogel gan staff hyfforddedig.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ac arwain addas ar waith i ddarparu gofal effeithiol i gleifion. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef yn gwrtais, yn wybodus ac yn cefnogi'r cleifion, a'i gydweithwyr.

Roedd y cofnodion staff a welsom wedi'u cwblhau'n llawn a gwelsom ymarfer da lle roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant y tu hwnt i'r gofynion gorfodol. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer codi pryderon gan gleifion neu staff yn briodol ac yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig.

Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd ar waith a bod yr holl weithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal fel mater o drefn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi maes i'w wella mewn perthynas ag adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r rheolwr cofrestredig barhau i sicrhau bod amserlen gadarn o adolygiadau clinigol gan gymheiriaid yn cael ei chynnal.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl adborth gan staff yn gadarnhaol
- Roedd y system ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion yn addas.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal yn Whitland Dental Co ar gyfer yr arolygiad ym mis Mawrth 2025. Cafwyd cyfanswm o 17 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd 17 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Ar y cyfan, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn gadarnhaol iawn. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth naill ai'n 'dda iawn' (15/17) neu'n 'dda' (2/17). Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

> *"Gwasanaeth rhagorol, cyfeillgar a chysurlon. Staff a chyfleusterau proffesiynol a chyfredol.*
>
> *"Rwy'n nerfus iawn wrth fynd at y deintydd. Rhoddodd dawelwch meddwl i mi yn ystod fy nhriniaeth."*
>
> *"Mae'n rhaid ei bod wedi bod yn anodd cymryd y practis drosodd a'i adnewyddu ar yr un pryd. Rwyf wedi ymweld â'r practis sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rwyf bob amser wedi cael sylw a thriniaeth o'r radd flaenaf er gwaethaf yr holl newidiadau sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni."*
>
> *"Gwasanaeth gwych, cyfeillgar a phroffesiynol."*
>
> *"Ers i'r practis gael ei gymryd drosodd, rwy'n teimlo fy mod yn cael triniaeth well, a'i bod yn haws cael apwyntiad."*

### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

**Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion**

Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i gleifion i hybu iechyd y geg da. Dywedodd y staff wrthym fod gwybodaeth yn cael ei rhoi ar lafar i gleifion yn dilyn eu hapwyntiadau, yn arbennig mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu ac arweiniad ar sut i frwsio dannedd yn effeithiol. Roedd ardal derbynfa'r practis wrthi'n cael ei uwchraddio'n llwyr a chadarnhaodd rheolwr y practis y byddai gwybodaeth ychwanegol i gleifion yn cael ei darparu pan fyddai'r gwaith hwn wedi'i gwblhau.

Roedd samplau o bast dannedd yn cael eu darparu i gleifion pediatrig er mwyn hybu iechyd y geg da.

Roedd datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion y practis ar gael i'r cleifion eu gweld ar gais. Gwelsom fod y ffioedd ar gyfer gwasanaethau preifat wedi'u nodi'n glir yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion ac ar-lein. Roedd enwau'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos lle y gellid eu gweld yn hawdd. Gwelsom fod yr oriau agor a'r manylion cyswllt mewn argyfwng i'w gweld y tu allan i'r practis.

Nododd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hiechyd y geg yn cael ei esbonio iddynt mewn modd y gallent ei ddeall. Roedd pob un o'r ymatebwyr ond un yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd y geg da.

**Gofal urddasol a pharchus**

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu hamser yn Whitland Dental Co. Roedd yr ardal aros ar wahân i'r ardal lle roedd galwadau ffôn yn cael eu hateb, a oedd yn atal pobl eraill rhag clywed galwadau ffôn. Roedd proses gofrestru hunanwasanaeth, gan olygu na fyddai unrhyw glaf yn cael ei glywed wrth gofrestru ar gyfer ei apwyntiad. Roedd y staff yn llofnodi copi o bolisi diogelu data'r practis i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu gwybodaeth cleifion.

Roedd drysau solet ar ddeintyddfeydd y practis, a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau, a gwelsom fod bleinds ym mhob un o'r deintyddfeydd. Roedd y mesurau hyn yn amddiffyn preifatrwydd y cleifion tra roeddent yn y ddeintyddfa. Nododd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod urddas a phreifatrwydd cleifion bob amser yn cael eu cynnal. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gwelsom fod y Naw Egwyddor a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

**Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth a oedd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am y risgiau a'r manteision. Cadarnhaodd yr ymatebwyr i'r holiadur staff fod cleifion yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu triniaeth, a chafodd hyn ei gadarnhau gan yr hyn a ddywedodd y cleifion wrthym. Dywedodd yr ymatebwyr i'r holiadur staff fod gofal cleifion yn brif flaenoriaeth i'r practis.

Nododd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth. Roedd pob un o'r cleifion hefyd yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau addas ar yr hyn y dylid ei wneud yn achos haint neu argyfwng.

## Amserol

### Gofal amserol

Gwelsom fod proses apwyntiadau boddhaol ar waith i reoli amser yr ymarferwyr yn briodol. Byddai cleifion yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ar ôl cael triniaeth. Dywedodd y staff wrthym mai anaml y byddent yn rhedeg yn hwyr o ran apwyntiadau. Fodd bynnag, pe bai apwyntiadau yn rhedeg yn hwyr, byddai'r staff yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi. Byddai cleifion yn cael gwybod am oedi cyn neu wrth gyrraedd, a byddent yn cael cynnig apwyntiadau amgen lle bo angen.

Dywedodd y staff wrthym fod gan y clinigydd amseroedd aros gwahanol rhwng apwyntiadau ond yn gyffredinol, nad oedd unrhyw glaf yn aros mwy na thair wythnos i gael ei weld. Roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu yn unol ag argaeledd y cleifion lle bynnag y bo'n bosibl, gan gynnwys trefniadau i drin plant oedran ysgol y tu allan i oriau ysgol.

Nododd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn ei chael hi'n 'hawdd iawn' (12/16) neu'n 'eithaf hawdd' (4/16) cael apwyntiad pan fo angen un arnynt.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn brysbennu cleifion dros y ffôn er mwyn sicrhau bod y rhai â'r anghenion mwyaf dybryd yn cael eu blaenoriaethu. Byddai staff y dderbynfa yn ymgynghori â chlinigydd fel rhan o'r broses frysbennu dros y ffôn neu'n trefnu i glinigydd ffonio cleifion yn ôl. Gwelsom hefyd fod slotiau yn y dyddiadur bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn gorfod aros mwy na 24 awr i gael ei weld mewn argyfwng. Dywedodd bron hanner yr ymatebwyr (7/16) i holiadur AGIC i gleifion na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion ynglŷn â gofal deintyddol y tu allan i oriau.**

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau cefnogol ar waith i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigydd a'r cleifion. Roedd adnoddau cyfieithu ar-lein yn cael eu defnyddio, lle y

bo angen, i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Roedd dogfennau ar gael mewn fformatau gwahanol, a byddai dogfennau mwy arbenigol yn cael eu darparu ar gais. Gellid hefyd addasu'r dyfeisiau digidol a ddefnyddiwyd i gasglu data cleifion er mwyn diwallu anghenion y cleifion.

**Hawliau a chydraddoldeb**

Gwelsom dystiolaeth bod ymdrechion gweithredol ar waith i gefnogi hawliau ac i drin unigolion yn gyfartal. Roedd polisïau addas yn nodi sut roedd y practis yn cynnal hawliau'r cleifion a'r staff. Gwelsom fod y staff cwblhau sesiwn flynyddol ar gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Gwelsom hefyd fod polisi dim gwahaniaethu a dim goddefgarwch cadarn ar waith.

Roedd hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy ganiatáu iddynt ddewis y rhagenwau a'r enwau a ffefrir ganddynt yn eu cofnodion, ac roedd nodyn yn cael ei roi yn eu ffeil er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r dewisiadau hyn.

Gwelsom fod gan y practis ddull addas o helpu cleifion a staff yr oedd angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol ar eu cyfer. Roedd hyn yn cynnwys adnodd trawsgrifio byw a ddefnyddiwyd ar gyfer cleifion ag amhariad ar eu clyw. Roedd enghraifft ychwanegol yn cynnwys lle roedd dyletswyddau ysgafn wedi'u cynnig i aelod o staff â salwch cronig. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod yr adeilad yn hygyrch.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli risg**

Gwelsom bractis taclus a threfnus a oedd mewn cyflwr boddhaol y tu mewn a'r tu allan. Fel y nodwyd mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, roedd y practis wrthi'n cael ei adnewyddu'n llawn, felly roedd rhai ardaloedd yn edrych yn anniben ond nid oedd unrhyw beryglon amlwg i gleifion.  Roedd y practis wedi'i drefnu dros ddau lawr, ac roedd ardal aros o faint addas ar gyfer nifer y cleifion. Roedd ramp yn cael ei ddefnyddio ar y llawr gwaelod ac ar gyfer deintyddfa ar y llawr hwnnw er mwyn helpu'r rhai hynny ag anawsterau symudedd. Clywsom y llinellau ffôn yn gweithio'n dda a gwelsom fod y clinigydd yn defnyddio system negeseuon gwib i gyfathrebu'n fewnol. Cadarnhaodd yr ymatebwyr i holiadur staff AGIC fod ganddynt y systemau cywir i ddarparu gofal da i gleifion. Roedd ardaloedd newid y staff yn addas ac roedd loceri ar gael i'r staff. Nid oedd toiled i gleifion ar gael yn y practis ar y pryd, ond roedd toiled cyhoeddus lleol wedi'i hysbysebu'n glir i gleifion yn yr ardal aros.

Dywedodd pawb a ymatebodd i'r holiadur staff wrthym fod y cyfleusterau a oedd ar gael iddynt yn briodol i gyflawni eu tasgau penodol. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Roedd polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Roedd asesiadau risg diweddar wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch. Gwnaethom nodi bod polisïau ar waith ar gyfer sicrhau bod y safle'n addas at y diben o hyd ac ar gyfer rheoli risgiau. Roedd yr holl gyfarpar deintyddol a welsom mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Gwelsom hefyd fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol. Wrth edrych ar y cyfarpar diogelwch tân a'r wybodaeth am ddiogelwch tân, gwelsom fod trefniadau cadarn a chynhwysfawr ar waith. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd ac arddangos arwyddion diogelwch tân a dim smygu yn glir. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau diogelwch nwy a thrydan gan gontractwyr. Roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy wedi cael eu cynnal yn ddiweddar hefyd.

Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr y practis wedi'i harddangos ac roedd poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn yr ystafell staff.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau priodol ar waith i gynnal lefel dda o lendid ac amgylchedd gwaith diogel. Dywedodd pob aelod o staff a ymatebodd i'r holiadur a ddosbarthwyd gan AGIC fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn y practis. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod digon o gyfarpar diogelu personol ar gael iddynt er mwyn gallu gofalu am gleifion unigol yn ddiogel. Yn ystod yr arolygiad, cydnabu'r staff ei bod hi'n anodd cynnal glendid y practis wrth i'r gwaith adnewyddu fynd rhagddo. Fodd bynnag, roedd pob ardal arall o'r practis a phob darn o gyfarpar a welsom mewn cyflwr addas i sicrhau bod modd eu dihalogi a'u glanhau'n effeithiol. Gwelsom fod trefniadau ac arwyddion hylendid dwylo priodol ar waith.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y practis yn lân iawn. Nododd pob un o'r ymatebwyr hefyd fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn yn briodol. Dywedodd un claf:

> *"Cymerir gofal yn ystod pob ymweliad."*

Gwelsom fod mesurau boddhaol ar waith i sicrhau bod cyfarpar amldro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n gywir yn ystafell ddihalogi'r practis. Gwelsom gofnodion cynhwysfawr a oedd yn dangos bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal o gylchredau'r peiriant awtoclaf a bod amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd ar waith. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau unigol mewn perthynas â mesurau rheoli heintiau a gwnaethant gadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant priodol yn eu rolau. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddihalogi'r cyfarpar yn gywir.

Gwelsom fod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn gadarn. Roedd holl wastraff y practis yn cael ei storio a'i waredu'n gywir drwy gontract gwaredu gwastraff addas.

**Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom fod y trefniadau sydd ar waith i reoli meddyginiaethau yn briodol. Roedd polisi addas ar waith ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu meddyginiaethau yn ddiogel. Roedd yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau yn cael ei rheoli'n gywir ac roedd gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n addas.

Gwelsom fod mesurau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod pob un ohonynt yn meddu ar gymwysterau addas ym maes adfywio cardiopwlmonaidd a bod dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Wrth archwilio'r

cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol, yn hawdd cael gafael arnynt ac o fewn eu dyddiadau defnyddio. Gwnaethom nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o bob darn o gyfarpar er mwyn sicrhau ei fod yn barod i'w ddefnyddio pan fo angen.

**Diogelu plant ac oedolion**

Roedd gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau yn ystyried Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, yn cynnwys manylion cyswllt gwasanaethau cymorth lleol ac yn nodi arweinydd diogelu penodedig ar gyfer y practis. Roedd siartiau llif a thaflenni cyswllt diogelu hefyd ar gael i helpu'r staff pe bai mater diogelu yn codi.

Roedd cofnodion hyfforddiant y staff a welsom yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad ddealltwriaeth foddhaol o weithdrefnau diogelu gan ddweud eu bod yn teimlo y byddent yn cael eu cefnogi pe byddent yn codi pryder

**Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom fod cyfarpar deintyddol amldro yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy'n hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwasanaethu'r holl gyfarpar ac ar gyfer ymateb yn gyflym i fethiant system cyfarpar. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran defnyddio'r cyfarpar, ac roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn cadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau.

Gwelsom fod ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyfredol ac yn gynhwysfawr. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod y nodiadau clinigol ar gyfer triniaethau radiograffig wedi cael eu cwblhau'n llawn. Nododd y staff fod cleifion yn cael eu hysbysu'n briodol am risgiau a manteision ymbelydredd a gwelsom fod cysylltiadau ag ymbelydredd yn cael eu nodi'n gywir yng nghofnodion y cleifion. Gwelsom fod y rheolau lleol ar gael yn hawdd ym mhob deintyddfa. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant radiograffeg i lefel briodol.

## Effeithiol

**Gofal effeithiol**

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion cleifion yn ddiogel. Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod y cleifion yn deall y gweithdrefnau llawfeddygol ac yn cydsynio iddynt. Fodd bynnag, ni welsom restrau gwirio clinigol yn cael eu defnyddio i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir. Anogir mesurau ychwanegol i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir er mwyn atal niwed i gleifion.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi mesurau diogelu cadarn waith i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.**

**Cofnodion cleifion**

Gwelsom sampl o ddeg o gofnodion cleifion a gwelsom fod yr holl gofnodion yn cael eu cadw yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac yn cael eu goruchwylio drwy ddilyn polisi rheoli cofnodion addas.

Roedd y cofnodion a welsom yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r gofal yr oedd cleifion yn ei gael, gan gynnwys cofnod addas o archwiliadau sgrinio am ganser, archwiliadau y tu mewn a'r tu allan i'r geg, siartiau sylfaenol llawn ac archwiliadau meinweoedd meddal.

Gwelsom fod system ddigidol addas ar waith i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd mewn modd amserol i fynd ar drywydd atgyfeiriadau ar gyfer achosion posibl o ganser.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac arweinyddiaeth**

Gwnaethom nodi bod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Esboniodd rheolwr y practis a'r prif ddeintydd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i gyflawni eu rolau arwain yn effeithiol. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob mis ac roedd pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Wrth edrych ar gofnodion cyfarfodydd staff, gwnaethom nodi trafodaethau addas am iechyd a diogelwch, rheoli heintiau, materion staffio ac adolygiadau o weithdrefnau brys.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn y rheolwyr ac y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt.

Roedd adnodd cydymffurfiaeth ar-lein yn cael ei ddefnyddio i nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau, y materion a'r ffactorau lliniaru yn y practis. Roedd y system hefyd yn cael ei defnyddio i fonitro a diweddaru polisïau a gweithdrefnau yn rheolaidd ac i rannu'r newidiadau hyn â'r staff.

## Y Gweithlu

**Gweithlu medrus a galluog**

Gwnaethom nodi amgylchedd gwaith cadarnhaol yn y practis a gwelsom gydberthnasau gwaith da ymysg y staff. Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC y byddai'n argymell y practis fel lle da i weithio ynddo. Hefyd, dywedodd pob un o'r ymatebwyr y byddent yn hapus gyda safon y gofal a ddarperir yn y practis pe bai angen gofal deintyddol ar ffrind neu berthynas.

Gwelsom fod y system a oedd ar waith i sicrhau bod nifer addas o staff cymwysedig yn gweithio ar unrhyw adeg benodol yn foddhaol.

Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr a chefnogol ar waith i alluogi pob aelod o'r staff i gael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar gyfer ei rôl. Gwnaethom edrych ar gofnodion y pedwar aelod o staff a gwelsom eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r holl ofynion hyfforddiant gorfodol. Gwelsom hefyd enghreifftiau o arferion da, gydag aelodau unigol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol perthnasol uwchlaw'r disgwyliadau gorfodol. Roedd system ddigidol addas a threfniadau cymorth cadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant a galluogi'r staff i gael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar gyfer eu rolau.

Esboniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad y byddent yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad â nhw pe byddai ganddynt bryder am y ffordd roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu, triniaethau neu drefniadau rheoli. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod y practis yn eu hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau neu gamgymeriadau a fu bron â digwydd. Dywedodd pob ymatebydd y byddai'n teimlo ei fod yn cael ei gefnogi pe bai'n codi pryder ac y byddai'r practis yn cymryd camau i sicrhau na fyddai'r digwyddiad yn digwydd eto. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon. Gan mai busnes teuluol ydoedd, byddai unrhyw bryderon am staffio yn cael eu cyfeirio at gwmni adnoddau dynol er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau.

Roedd trefniadau addas ar waith i fonitro a chynnal rhwymedigaethau proffesiynol y staff hynny a oedd yn gweithio yn y practis o'r adeg y gwnaethant ddechrau gweithio yno. Roedd pob un o'r cofnodion staff a welsom wedi'u cwblhau'n llawn ac yn cynnwys cofrestriadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau geirdaon cyn cyflogi cynhwysfawr. Roedd y rheolwyr yn goruchwylio'r broses o sefydlu aelodau newydd o staff drwy bolisi recriwtio priodol a rhestr wirio fanwl ar gyfer y cyfnod sefydlu mewn modd cefnogol. Roedd y ddwy nyrs ddeintyddol yn aelodau newydd o staff ac nid oeddent wedi bod yn gweithio yn y practis am fwy na blwyddyn, gan olygu nad oeddent wedi cael arfarniadau diwedd blwyddyn llawn. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth addas bod arfarniadau interim wedi'u cynnal.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**

Roedd system gynhwysfawr ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Roedd adolygiadau gwasanaeth cwsmeriaid yn cael eu hanfon at gleifion i'w cwblhau ar-lein ar ôl iddynt gael triniaeth, ac roedd arolwg cleifion blynyddol yn cael ei gwblhau. Roedd rheolwr y practis yn adolygu adborth bob wythnos ac yn rhoi adborth yn ystod cyfarfodydd tîm. Roedd ymatebion i adborth yn cael eu rhannu yn y cylchlythyr i gleifion.

Roedd y weithdrefn gwyno i gleifion yn addas ac roedd copi ohoni ar gael yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion yn y dderbynfa. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am oruchwylio cleifion, ac roedd ei fanylion cyswllt wedi'u nodi yn y weithdrefn gwyno. Byddai cwynion llafar yn cael eu cofnodi gan y staff a'u rhannu â rheolwr y practis mewn modd amserol i'w datrys. Roedd y dull o uwchgyfeirio cwyn wedi'i nodi yn y daflen gwyno i gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC a'r gwasanaeth cwynion deintyddol. Er nad oedd unrhyw gwynion i ni eu hadolygu, cawsom sicrwydd drwy'r broses a oedd ar waith.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

**Gweithgareddau gwella ansawdd**

Gwelsom fod dull addas o wella ansawdd ar waith a bod yr holl weithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau cynhwysfawr a rheolaidd o gofnodion cleifion, rhagnodi gwrthficrobaidd, gwastraff gofal iechyd ac archwiliadau atal a rheoli heintiau.

Gwasanaeth un ymarferydd a sefydlwyd yn ddiweddar oedd hwn, a oedd yn golygu nad oedd adolygiadau clinigol ffurfiol nac anffurfiol yn cael eu cynnal mor rheolaidd ag y byddent mewn lleoliad sefydledig neu fwy o faint. Er mwyn ysgogi gwelliant parhaus, gyda chymorth clinigwyr eraill, dylai'r lleoliad barhau i ymgymryd ag adolygiadau clinigol mynych a ffurfiol gan gymheiriaid drwy ei gontract Denplan a cheisio cymorth proffesiynol eraill, lle bo angen. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cyflawni'r ymarfer gorau i gleifion.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig barhau i sicrhau bod amserlen gadarn o adolygiadau clinigol gan gymheiriaid yn cael ei chynnal.**

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

# Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Whitland Dental Co

## Dyddiad yr arolygiad: 18 Mawrth 2025

Mae’r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn | | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Whitland Dental Co

## Dyddiad yr arolygiad: 18 Mawrth 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Dywedodd bron hanner yr ymatebwyr (7/16) i holiadur AGIC i gleifion na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion ynglŷn â gofal deintyddol y tu allan i oriau. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 13 (1) (a) | 1. Bydd Cylchlythyr Haf 2025 ar gael ar flog ein gwefan a bydd yn cael ei anfon yn uniongyrchol at ein cleifion sydd wedi dewis derbyn deunydd marchnata. Bydd y cyhoeddiad hwn yn cynnwys esboniad a dolenni perthnasol.<br>2. Mae cyfarwyddiadau clir bellach ar gael yn y mannau canlynol:<br>• Ein gwefan: www.whitlanddental.co, o dan Patient | Dr Alexandra Davies | Cwblhawyd ar 2 Mai 2025 (Bydd y cylchlythyr yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2025 ond mae eisoes wedi'i ddrafftio) (Bydd y llyfryn gwybodaeth i gleifion a'r |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwybodaeth > Promises, Expectations & Guidance > The Essentials.<br>• Mae ein horiau agor a'n manylion cyswllt ar y drws ffrynt a'r ffenestr ochr wrth fynedfa'r practis.<br>• Ein llyfryn gwybodaeth i gleifion sydd ar y bwrdd coffi yn y lolfa i gleifion.<br>Ein llinell ffôn: 01994 238 660, sy'n rhoi opsiynau ar gyfer ein horiau agor, apwyntiadau brys a gofal y tu allan i oriau. | | bwrdd coffi yn cael ei roi yn ôl yn y dderbynfa ar ôl iddi gael ei phaentio ddiwedd mis Mai 2025). |
| **2.** | Ni welsom restrau gwirio clinigol yn cael eu defnyddio i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir. Anogir mesurau ychwanegol i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir er | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi mesurau diogelu cadarn waith i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir. | Adran 13 (1) (b) | • Mae rhestr wirio glinigol ar gyfer tynnu dannedd bellach ar gael yn y blwch adnoddau tynnu dannedd.<br><br>Mae meddalwedd y practis bellach yn cynnwys templed digidol o'r rhestr wirio glinigol sy'n cael ei llenwi cyn pob achos o dynnu dant ac mae | Dr Alexandra Davies | Cwblhawyd ar 2 Mai 2025. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | mwyn atal niwed i gleifion. | | | hefyd yn rhan o'r cofnodion clinigol. | | |
| **3.** | Gwasanaeth un ymarferydd a sefydlwyd yn ddiweddar oedd hwn, a oedd yn golygu nad oedd adolygiadau clinigol ffurfiol nac anffurfiol yn cael eu cynnal mor rheolaidd ag y byddent mewn lleoliad sefydledig neu fwy o faint. Er mwyn ysgogi gwelliant parhaus, gyda chymorth clinigwyr eraill, dylai'r lleoliad barhau i ymgymryd ag adolygiadau clinigol mynych a ffurfiol gan gymheiriaid drwy ei gontract Denplan a cheisio cymorth proffesiynol eraill, lle bo angen. Bydd hyn | Dylai'r rheolwr cofrestredig barhau i sicrhau bod amserlen gadarn o adolygiadau clinigol gan gymheiriaid yn cael ei chynnal. | Adran 16 (1) (a) | • Ers mis Ionawr 2025, mae Dr Alexandra Davies wedi bod yn ymwneud â dau gydweithiwr (sy'n gweithio i AaGIC ac AGIC), sydd wrthi'n cynnal adolygiad gan gymheiriaid o'i datblygiad proffesiynol a chlinigol.<br>• Mae'r practis yn rhwydweithio â phractisau lleol eraill ac mae wedi cytuno'n anffurfiol i ymgymryd ag archwiliadau/adolygiadau gan gymheiriaid yn y dyfodol.<br>• Mae cyfleoedd DPP ar gael i bob aelod o'r staff ac mae pob un ohonynt yn cael ei annog i'w gwblhau yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. | Dr Alexandra Davies | Parhaus ers mis Ionawr 2025 (Mae archwiliadau wedi bod yn cael eu cynnal ers mis Medi 2024). |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cyflawni'r ymarfer gorau i gleifion. | | | Mae meddalwedd reoli'r practis yn atgoffa'r staff i gynnal archwiliadau yn unol â'r canllawiau cyfredol. | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Enw (priflythrennau): Dr Alexandra Davies**

**Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig, Perchennog y Practis a Phrif Ddeintydd**

**Dyddiad: 2 Mai 2025**